Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Dilynol ar yr Argymhellion a Gyhoeddwyd yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Er Budd y Cyhoedd (Cam 1) – Cyngor Sir Penfro

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3649A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ymdrin â'r argymhellion yn ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd ond mae angen iddo sicrhau ei hun a dangos bod y camau gweithredu y mae'n eu cymryd yn gynaliadwy ac y byddant yn cyflawni'r effeithiau bwriadedig.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 6

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru Adroddiad Er Budd y Cyhoedd i Gyngor Sir Penfro (y Cyngor) ym mis Ionawr 2022[1]. Roedd yr adroddiad yn nodi diffygion mewn trefniadau llywodraethu a phrosesau penderfynu mewn perthynas â'r ffordd yr ymdriniodd y Cyngor â thaliad ymadael a wnaed i'r Prif Weithredwr blaenorol. Yn ei adroddiad fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol wyth argymhelliad i'r Cyngor a oedd yn cwmpasu:

- rolau a chyfrifoldebau;
- perthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion;
- gwneud penderfyniadau;
- taliadau terfynu;
- datganiad ar bolisi tâl;
- caffael a defnyddio ymgynghorwyr allanol;
- cyfansoddiad y Cyngor; ac
- ymlynu wrth Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus.

2 Amcan yr adolygiad hwn oedd asesu cynnydd y Cyngor o ran cymryd camau gweithredu effeithiol i ymdrin â'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

3 Ym mis Chwefror 2022, fe gymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol 2022-24 sy'n cynnwys 74 o gamau gweithredu i ymdrin ag argymhellion a gododd o nifer o adolygiadau ac adroddiadau yr oedd wedi'u cael a'r rheiny'n canolbwyntio ar lywodraethu. Roedd yr adroddiadau hynny'n cynnwys ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd yn ogystal ag adolygiadau a gomisiynwyd gan y Cyngor ei hun, a oedd yn cynnwys Adolygiad Bowles (adolygiad annibynnol o faterion a oedd yn ymwneud â Chytundeb Setlo'r Prif Weithredwr blaenorol), a'r Adolygiad Cymheiriaid Corfforaethol y gofynnodd amdano gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

4 I egluro, roedd cwmpas yr archwiliad dilynol hwn yn canolbwyntio ar gynnydd y Cyngor yn erbyn yr wyth argymhelliad a gyhoeddwyd yn ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd ym mis Ionawr 2022.

5 Rydym ni'n deall bod gweithredu ar ein hargymhellion yn rhan o siwrne'r Cyngor i wneud gwelliannau hirdymor a chynaliadwy i'w drefniadau llywodraethu. Felly rydym yn dilyn siwrne'r Cyngor ac yn gwneud ein gwaith fesul cam. Ar gyfer cam cyntaf ein gwaith dilynol, rydym yn adrodd ar adolygiad sicrwydd o gynnydd y Cyngor hyd at fis Mai 2023. Wedyn byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn ystod gweddill blwyddyn ariannol 2023-24.

[1] Archwilio Cymru, Diffygion yn Nhrefniadau Llywodraethu a Phrosesau Penderfynu Cyngor Sir Penfro Mewn Perthynas ag Ymadawiad ei Brif Weithredwr blaenorol gyda Thaliad Terfynu, Ionawr 2022

6 Fe gynhaliom ni'r adolygiad dilynol cam cyntaf hwn trwy adolygiadau o ddogfennau, cyfweliadau gydag Aelodau a swyddogion allweddol a thrwy arsylwi ar gyfarfodydd pwyllgorau perthnasol, a rhai cyfarfodydd gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad a sefydlwyd gan y Cyngor. Fe gynhaliom ni'r adolygiad dilynol cam cyntaf hwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror 2023 a mis Mai 2023.

## Yr hyn a ganfuom

7 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor yn cymryd camau gweithredu effeithiol i ymdrin â'r argymhellion yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol Er Budd y Cyhoedd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022?

8 Mae crynodeb o'n canfyddiadau yn erbyn pob argymhelliad wedi'i gynnwys yn **Arddangosyn 2**. Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ymdrin â'r argymhellion yn ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd ond bod angen iddo sicrhau ei hun a dangos bod y camau gweithredu y mae'n eu cymryd yn gynaliadwy ac y byddant yn cyflawni'r effeithiau bwriadedig.

## Argymhelliad

**Arddangosyn 1: argymhelliad**

Yn ogystal â bod y Cyngor yn cwblhau'r argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd rydym wedi cyhoeddi argymhelliad pellach. Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhelliad pellach yr ydym wedi'i adnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhelliad |
| --- |
| **Dangos effaith**<br>A1 Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun a dangos bod y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd yn gynaliadwy ac y byddant yn cyflawni'r effeithiau bwriadedig. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ymdrin â'r argymhellion yn ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd ond mae angen iddo sicrhau ei hun a dangos bod y camau gweithredu y mae'n eu cymryd yn gynaliadwy ac y byddant yn cyflawni'r effeithiau bwriadedig

9 Roedd ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd yn cynnwys wyth argymhelliad. Roedd rhai o'r argymhellion hyn yn ymwneud â newidiadau i brosesau ac roedd rhai'n ymwneud â'r angen am newid diwylliannol cynaliadwy yn y Cyngor. Wrth gynnal yr archwiliad dilynol hwn, fe wnaethom gydnabod yn llawn y bydd yr argymhellion sy'n canolbwyntio ar newid diwylliannol yn rhai parhaus o ran eu natur ac y byddant yn cymryd mwy o amser i ymwreiddio yn y Cyngor. Am y rheswm hwn nid oeddem yn disgwyl canfod bod yr holl argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn yn yr adolygiad cam 1 hwn. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod ar siwrne o welliant yn ei drefniadau llywodraethu. Mae'r adroddiad dilynol hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud hyd yma gyda'n hargymhellion.

10 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys camau gweithredu i ymdrin â'r argymhellion yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Er Budd y Cyhoedd yn ogystal ag adroddiadau eraill sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gomisiynodd y Cyngor gan ymgynghorwyr allanol. Mae'r Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys 74 o gamau gweithredu, yr oedd rhai ohonynt yn gysylltiedig â'n hargymhellion ni, ac y mae eraill y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn.

11 Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol ehangach y Cyngor yn cael ei ysgwyddo gan y Prif Weithredwr gyda chymorth swyddogion o'r Tîm Arwain Gweithredol, sy'n arwain ar gyflawni camau gweithredu penodol yn y cynllun.

12 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd gyda phob un o'r wyth argymhelliad yn ein Hadroddiad Er Budd y Cyhoedd. Mae **Arddangosyn 2** yn darparu crynodeb o'n canfyddiadau yn erbyn pob argymhelliad o ran y sefyllfa ym mis Mai 2023. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor yn dal i fod yn y broses o weithredu ar yr wyth argymhelliad.

13 Nid yw rhai o'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'n hwyth argymhelliad wedi cael eu cyflawni o fewn y ffrâm amser a bennwyd gan y Cyngor yn wreiddiol. Mae amseriad rhai o'r camau gweithredu hyn o fewn rheolaeth y Cyngor (e.e. y penderfyniad i symud y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r Cyfansoddiad diwygiedig o fis Mai 2023 i fis Hydref 2023). Mae peth o'r oedi y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor (megis y llinell amser ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol cenedlaethol mewn perthynas â rheolau'r weithdrefn gontractau).

14 Cyflwynir diweddariadau ar y camau gweithredu i ymdrin â’n hwyth argymhelliad mewn adroddiadau i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor ac i’r Cyngor llawn fel rhan o’r Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol ehangach. Mae’r Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol yn nodi’r camau gweithredu, y graddfeydd amser ar gyfer cyflawni a’r swyddogion cyfrifol, yn ogystal â’r deilliannau bwriadedig. Mae’r Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn darparu crynodeb naratif o gynnydd a sgôr coch, ambr, gwyrdd yn erbyn pob cam gweithredu. Fodd bynnag, er yr adroddir ar y manylion yn erbyn pob cam gweithredu, nid oes gwerthusiad cryno sy’n amlygu unrhyw risgiau a materion allweddol mewn perthynas â chyflawni. Nid yw’r camau gweithredu wedi’u blaenoriaethu’n glir yn y Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol ac nid yw’r cynllun yn nodi pa gamau gweithredu yr ystyrir eu bod yn fwy hanfodol i wella llywodraethu o fewn y Cyngor. Nid yw’r sgoriau CAG wastad yn adlewyrchu’r sefyllfa wirioneddol o ran cyflawni e.e. bu enghreifftiau o gamau gweithredu â sgôr CAG gwyrdd pan fo naratif yr adroddiad yn nodi nad ydynt wedi cael eu cyflawni eto neu fod oedi gyda hwy.

15 Ym mis Mawrth 2023, nododd swyddogion eu bwriad i ddiwygio’r Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol yn barod ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2023, gan gadw’r un strwythur ond gan ddwyn nifer o gamau gweithredu ynghyd dan un thema. Fodd bynnag, ni chwblhawyd hyn mewn pryd i gyflwyno fformat diwygiedig ar gyfer y Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol yng nghyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor ym mis Ebrill 2023 nac yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Mai 2023.

16 Yn y Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol ceir nifer o gamau gweithredu tymor hwy sy’n gysylltiedig â’n hargymhellion lle mae’r Cyngor wedi diffinio’i ddeilliannau bwriadedig, ond nid yw wedi penderfynu eto sut y bydd yn sicrhau ei hun bod y deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Er enghraifft, mewn ymateb i argymhelliad un yn ein hadroddiad nid yw’r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn dangos bod gan Aelodau a swyddogion ddealltwriaeth eglur am rolau a chyfrifoldebau, na sut y bydd yn asesu bod y perthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion yn adeiladol ac yn seiliedig ar barch. Trwy ein gwaith maes soniodd yr holl Aelodau a swyddogion y siaradom ni gyda hwy fod newid cadarnhaol wedi bod yn y berthynas/diwylliant rhwng Aelodau a swyddogion a bod dealltwriaeth well am rolau, ond nifer gyfyngedig o gyfweliadau a gynhaliwyd. Mae angen i’r Cyngor ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau ei hun bod y camau gweithredu y mae’n eu cymryd mewn ymateb i’n hargymhellion yn effeithiol, eu bod yn cyflawni’r deilliannau bwriadedig, a bod gwelliannau’n gynaliadwy.

## Camau nesaf

17 Mae’r Cyngor wedi dangos ei fod yn gwneud cynnydd o ran ymdrin â’n hargymhellion, ac nid yw wedi cwblhau’r gwaith eto. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 a byddwn yn cyhoeddi adroddiad pellach maes o law.

**Arddangosyn 2: argymhellion a chanfyddiadau**

Mae'r tabl isod yn nodi crynodeb o'n canfyddiadau yn erbyn pob argymhelliad a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad yn 2022.

| Argymhellion a chanfyddiadau |
| --- |
| **Argymhelliad 1 – Rolau a chyfrifoldebau**<br>Dylai'r Cyngor sicrhau:<br>• bod priod rolau a chyfrifoldebau Aelodau a swyddogion wedi cael eu diffinio'n glir;<br>• bod aelodau a swyddogion yn gallu dangos dealltwriaeth glir am eu priod rolau a chyfrifoldebau; a<br>• bod perthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion yn adeiladol ac yn seiliedig ar barch. |
| **Canfyddiad – argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br>• Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Aelodau a swyddogion fel rhan o'i waith ar adolygu ei Gyfansoddiad.<br>• Yn dilyn etholiadau lleol mis Mai 2022, darparodd y Cyngor hyfforddiant ar gyfer Aelodau a swyddogion mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau.<br>• Roedd y rhai y gwnaethom ni gyfweld â hwy'n teimlo bod perthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion wedi gwella a'u bod bellach yn fwy adeiladol a seiliedig ar barch.<br>• Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi nodi eto sut y bydd yn dangos bod perthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion yn gwella, a sut y bydd yn ei argyhoeddi ei hun bod gan Aelodau a swyddogion ddealltwriaeth fwy eglur am eu priod rolau a chyfrifoldebau.<br><br>**Cam gweithredu yn y dyfodol – Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.** |

**Argymhellion a chanfyddiadau**

**Argymhelliad 2 – Perthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion**

Dylai'r Cyngor adolygu pa un a yw ei drefniadau cyfredol ar gyfer ymdrin â chwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud ag Aelodau/swyddogion yn addas ar gyfer y diben. Dylai hyn gynnwys:

- sicrhau bod ganddo fecanweithiau anffurfiol effeithiol i geisio datrysiad cynnar i anghydfodau ac osgoi sefyllfa lle maent yn cael eu huwchgyfeirio'n ddiangen trwy brosesau ffurfiol; a
- chryfhau'r adran o gyfansoddiad y Cyngor sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion fel ei bod yn cynnwys mecanwaith anffurfiol clir y gall swyddogion ei ddefnyddio i geisio datrys anawsterau o ran perthnasoedd ag Aelodau.

**Canfyddiad – argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol**

- Yn dilyn adolygiad gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad o drefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion ac anghydfodau rhwng Aelodau a swyddogion, fe gytunodd Pwyllgor Adolygu'r Cyfansoddiad (yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2023) i gyflwyno argymhelliad i'r Cyngor i fabwysiadu protocol diwygiedig ar berthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion. Fe gytunodd y Cyngor (yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2023) i fabwysiadu'r protocol diwygiedig ar berthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion. Mae hwn bellach mewn grym ac yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.
- O dan y protocol hwn, ceir proses fwy eglur bellach i Aelodau a swyddogion godi pryderon. Mae'r protocol yn nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau ar gyfer y naill a'r llall. Mae'n cynnwys prosesau datrys anghydfod anffurfiol sydd ar gael i Aelodau a swyddogion ac sydd wedi'i bwriadu i ddatrys pryderon ar sail gydsyniol.

**Cam gweithredu yn y dyfodol – Yn awr mae angen i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth o'r protocol diwygiedig gydag Aelodau a swyddogion a phenderfynu sut y bydd yn sicrhau ei hun bod y protocol diwygiedig a mecanweithiau anffurfiol yn effeithiol o ran datrys anghydfodau'n anffurfiol a, lle y bo'n briodol, osgoi uwchgyfeirio i brosesau ffurfiol. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.**

**Argymhellion a chanfyddiadau**

**Argymhelliad 3 – Gwneud penderfyniadau**

Dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod ei weithdrefnau penderfynu wedi'u nodi'n glir, yn cael eu deall ac yr ymlynir wrthynt, gan Aelodau a swyddogion fel ei gilydd;
- sicrhau, wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â defnyddio symiau sylweddol o arian cyhoeddus (fel a ddiffinnir gan y Cyngor), bod ystyriaethau gwerth am arian yn cael sylw priodol ac yn cael eu dogfennu'n iawn;
- sicrhau bod ei drefniadau penderfynu dirprwyedig yn addas ar gyfer y diben, a bod Aelodau a swyddogion yn ymlynu wrth lefelau eu hawdurdod dirprwyedig;
- atgoffa aelodau a swyddogion na ddylai penderfyniadau arwyddocaol a/neu ddadleuol gael eu gwneud gan swyddogion gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig; a
- sicrhau atebolrwydd clir a chysondeb wrth sicrhau darpariaeth cyngor llywodraethu.

**Argymhellion a chanfyddiadau**

**Canfyddiad – argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol**

- Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ac yn diweddaru ei Gyfansoddiad. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd gweithdrefnau penderfynu, gan gynnwys penderfyniadau wedi'u dirprwyo, yn cael eu hadolygu.
- Mae'r Cyngor wedi gweithredu i atgoffa awduron adroddiadau o'r angen i sicrhau bod adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor yn nodi'n glir beth yw cefndir y penderfyniad arfaethedig ac yn cynnwys cyngor proffesiynol swyddogion statudol.
- Mae'r Cyngor wedi diwygio Rheolau ei Weithdrefn Ariannol. Cymeradwywyd y rhain gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2023, fe'u mabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2023 ac maent bellach mewn grym. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig yn nodi diffiniad y Cyngor o werth am arian. Mae'r Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys cam gweithredu i gynnal hyfforddiant ar y Rheoliadau Ariannol diwygiedig, ochr yn ochr â hyfforddiant ar y Rheolau Gweithdrefn Gontractau wedi'u diweddaru. Mae'r hyfforddiant hwn yn yr arfaeth ar gyfer mis Mawrth 2024.
- Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant ar gyfer Aelodau a swyddogion mewn perthynas â gwneud penderfyniadau.
- Mae Aelodau a swyddogion wedi cael hyfforddiant yn eu hatgoffa na ddylai penderfyniadau arwyddocaol a/neu ddadleuol gael eu gwneud gan swyddogion dan bwerau dirprwyedig.
- Mae'r Cyngor wedi creu swydd newydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu i ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer cyngor ar lywodraethu. Mae Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu wedi ymgysylltu'n rhagweithiol ag Aelodau a swyddogion ynghylch pwysigrwydd ceisio cyngor ar lywodraethu pan fo angen, ac mae hyn wedi cael ei atgyfnerthu gan y Prif Weithredwr trwy ei arweinyddiaeth ar y sefydliad. Mae tîm y gyfraith a llywodraethu'n dweud bod cynnydd wedi bod yn nifer yr ymholiadau ar gyfer cyngor ar lywodraethu gan Aelodau a swyddogion.

**Cam gweithredu yn y dyfodol – Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei weithdrefnau penderfynu fel rhan o'i adolygiad o'i Gyfansoddiad. Wedyn bydd angen i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant ar gyfer Aelodau a swyddogion ar y Cyfansoddiad newydd (mae'r Cyngor wedi cynnwys hyn fel cam gweithredu yn ei Gynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol). Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.**

**Argymhellion a chanfyddiadau**

**Argymhelliad 4 – Taliadau Terfynu**

Dylai'r Cyngor sicrhau'r canlynol mewn perthynas â'r holl daliadau terfynu a wneir i Brif Swyddogion yn y dyfodol:

- eu bod yn cael eu hategu gan achosion busnes priodol;
- eu bod yn cael eu penderfynu yn unol â gofynion deddfwriaethol, cyfansoddiadol a datganiad cymeradwy'r Cyngor ar bolisi tâl; ac
- yr hysbysir yn eu cylch mewn ffordd dryloyw.

**Canfyddiad – argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol**

- Mae'r Cyngor yn datblygu canllawiau newydd ynghylch 'Trefniadau Ymadael ar gyfer Prif Swyddogion' i egluro'r trefniadau ar gyfer taliadau terfynu yn y dyfodol mewn perthynas â Phrif Swyddogion. Mae'r canllawiau newydd yn cwmpasu'r materion yn ein hargymhelliad (h.y. bod rhaid iddynt gael eu hategu gan achos busnes a chael eu penderfynu yn unol â gofynion deddfwriaethol). Mae'r canllawiau hefyd yn egluro, 'y bydd penderfyniadau ynglŷn â thaliadau ymadael pan derfynir cyflogaeth prif swyddogion yn cael eu gwneud, fel rheol, gan y Cyngor Llawn'.
- Mae'r canllawiau newydd ar ffurf copi drafft ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori mewnol cyn eu mabwysiadu. Yn y Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol y llinell amser arfaethedig ar gyfer mabwysiadu yw erbyn mis Rhagfyr 2023.
- Fe gymeradwyodd y Cyngor Llawn gais gan Brif Swyddog dan y cynllun ymddeoliad cynnar yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023. Bydd cydweithwyr ym maes Archwilio Cyfrifon yn ystyried y taliad hwnnw yn ystod yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2022-23.

**Cam gweithredu yn y dyfodol – Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.**

**Argymhellion a Chanfyddiadau**

**Argymhelliad 5 – Datganiad ar Bolisi Tâl**

Dylai'r Cyngor adolygu a diweddaru ei ddatganiad ar bolisi tâl i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn darparu digon o hyblygrwydd mewn perthynas â thaliadau ymadael wrth derfynu cyflogaeth Prif Swyddog.

**Canfyddiad – argymhelliad wedi'i roi ar waith yn llawn**

- Mae'r Cyngor wedi adolygu ei Ddatganiad ar Bolisi Tâl ar gyfer 2022-23 a 2023-24. Cymeradwywyd y rhain gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2022 a 2 Mawrth 2023 yn y drefn honno.
- Mae'r polisi bellach yn fwy cynhwysfawr ac yn darparu mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â thaliadau ymadael pan derfynir cyflogaeth Prif Swyddog.

**Cam gweithredu yn y dyfodol – Mae Polisi Tâl y Cyngor yn cynnwys cyfeiriad at y Cyfansoddiad. Wrth adolygu'r Cyfansoddiad, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod aliniad cywir rhwng y Datganiad ar Bolisi Tâl a'r Cyfansoddiad diwygiedig.**

**Argymhellion a Chanfyddiadau**

**Argymhelliad 6 – Caffael a defnyddio ymgynghorwyr allanol**

Dylai'r Cyngor adolygu a gweithredu rhaglen o ymwybyddiaeth a hyfforddiant i swyddogion er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer caffael a defnyddio ymgynghorwyr allanol yn cael eu sefydlu'n llawn a'u bod yn cynnwys:

- rhoi sylw i ystyriaethau wrth benderfynu penodi ymgynghorwyr allanol ai peidio, a
- darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer ymgynghorwyr allanol.

**Canfyddiad – argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol**

- Ym mis Mawrth 2023, darparodd y Cyngor gyfarwyddyd ysgrifenedig i staff mewn perthynas â chaffael a defnyddio ymgynghorwyr allanol. Mae'r nodyn gweithdrefn hwn yn cwmpasu 'cyfarwyddiadau ysgrifenedig' i'r graddau ei fod yn datgan bod rhaid i reolwr y contract 'sicrhau y datblygir manyleb neu gylch gorchwyl eglur'. Nid yw'r nodyn gweithdrefn yn cyfeirio at roi sylw i ystyriaethau wrth benderfynu a ddylid penodi ymgynghorwyr allanol.

**Cam gweithredu yn y dyfodol – Mae ar y Cyngor angen mecanwaith i asesu a oes angen penodi ymgynghorwyr allanol, sy'n rhoi sylw i ystyriaethau perthnasol. Mae angen i'r Cyngor hefyd sicrhau bod hyfforddiant i swyddogion perthnasol yn cael ei ddarparu ar y gweithdrefnau newydd ar gyfer caffael a defnyddio ymgynghorwyr allanol. Byddwn yn parhau i fonitro camau gweithredu'r Cyngor yn y maes hwn.**

**Argymhellion a Chanfyddiadau**

**Argymhelliad 7 – Cyfansoddiad y Cyngor**

Dylai'r Cyngor adolygu ac ailysgrifennu ei Gyfansoddiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol, bod ei gynnwys yn gyson drwyddo ac yn gyson ag unrhyw bolisïau a gweithdrefnau arwyddocaol sydd gan y Cyngor, ei fod yn hawdd ymgodymu ag ef a'i fod yn dilyn arfer da.

**Canfyddiad – argymhelliad heb ei roi ar waith**

- Mae'r Cyngor yn adolygu ei Gyfansoddiad, gan ddefnyddio'r Cyfansoddiad Enghreifftiol cenedlaethol fel y sail ar gyfer y gwaith hwn.
- Mae'r gwaith ar adolygu'r Cyfansoddiad yn cael ei wneud trwy Bwyllgor Adolygu'r Cyfansoddiad, sydd wedi sefydlu gweithgor sy'n cynnwys y Pwyllgor cyfan i wneud y gwaith adolygu manwl.
- Mae'r adolygiad o'r Cyfansoddiad yn cymryd yn hwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn mynd trwy'r Cyfansoddiad linell wrth linell ac mae hyn wedi arafu eu cynnydd. Nid yw Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad wedi gallu cydymffurfio â'r graddfeydd amser ar gyfer y gwaith yma a nodwyd yn ei gylch gorchwyl. Y llinell amser wreiddiol oedd y byddai'r adolygiad yn cael ei gwblhau a'i argymell i'r Cyngor ym mis Mai 2023. Ni lwyddwyd i gydymffurfio â'r terfyn amser hwn ac mae terfyn amser newydd, sef mis Hydref 2023, wedi cael ei bennu ar gyfer cyflwyno'r Cyfansoddiad diwygiedig i'r Cyngor i gael ei fabwysiadu. Fel rhan o'n gwaith maes, fe drafodon ni risgiau posibl yr oedi yma gyda swyddogion allweddol ac Aelodau. Roedd swyddogion ac Aelodau o'r farn y byddai'n well ganddynt gymryd mwy o amser ar yr adolygiad a sicrhau ei fod yn cael ei gynnal mewn modd trylwyr a chynhwysol, na rhuthro'r broses i gydymffurfio â'r graddfeydd amser yr oedd y Cyngor wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i werthuso risgiau gweithredu o fewn ei Gyfansoddiad presennol, nad yw'n adlewyrchu'r Cyfansoddiad Enghreifftiol ar hyn o bryd.
- Ymddengys fod y fersiwn o'r Cyfansoddiad y mae Aelodau'n ei hadolygu yng Ngweithgor y Cyfansoddiad yn hybrid o'r Cyfansoddiad Enghreifftiol a boblogwyd â rhai elfennau o Gyfansoddiad presennol Cyngor Sir Penfro. Wrth gyflwyno'r Cyfansoddiad diwygiedig i Bwyllgor Adolygu'r Cyfansoddiad ac yna i'r Cyngor i gael ei fabwysiadu, bydd angen i swyddogion sicrhau yr eglurir wrth Aelodau lle awgrymir newidiadau sylweddol i'r Cyfansoddiad Enghreifftiol/gwyriadau sylweddol oddi wrtho (ac unrhyw risgiau neu faterion y gallai hyn eu hachosi).

**Cam gweithredu yn y dyfodol – Mae angen i'r Cyngor gwblhau'r adolygiad o'r Cyfansoddiad a sicrhau ei fod yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn. Wedi hynny, bydd ar y Cyngor angen rhaglen gynhwysfawr ac wedi'i theilwra o waith i sicrhau bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddeall yn drylwyr gan Aelodau a swyddogion ac yn cael ei wreiddio ar draws y sefydliad.**

**Argymhellion a Chanfyddiadau**

**Argymhelliad 8 – Ymlynu wrth Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus[2]**

Dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod swyddogion ac aelodau'n deall eu rhwymedigaethau sylfaenol fel gweision cyhoeddus i ymlynu wrth Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).
- sicrhau bod staff yn ymwybodol sut y gallant godi pryderon pan ydynt yn dod ar draws ymddygiad sy'n mynd yn groes i Egwyddorion Nolan ac mewn perthynas ag aelodau, y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

**Canfyddiad – argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol**

- Mae'r Cyngor wedi darparu nifer o sesiynau hyfforddi i Aelodau sydd wedi nodi eu rhwymedigaeth sylfaenol i ymlynu wrth Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus. Mae swyddogion ar y Tîm Arwain Estynedig, rheolwyr a'r rhai ar y rhaglen i ddarpar arweinwyr wedi cael hyfforddiant ar Egwyddorion Nolan hefyd. Mae'r Cyngor yn ystyried bod yr hyfforddiant hwn yn rhan o broses barhaus i godi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion gydag Aelodau a swyddogion.
- Mae'r protocol diwygiedig ar berthnasoedd rhwng Aelodau a swyddogion y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd ymlynu wrth Egwyddorion Nolan.
- Nid yw'r Cyngor wedi amlinellu eto sut y bydd yn sicrhau ei hun bod yr holl Aelodau a swyddogion yn deall Egwyddorion Nolan ac yn ymlynu wrthynt.

**Cam gweithredu yn y dyfodol – Mae angen i'r Cyngor ddiffinio sut y bydd yn sicrhau ei hun bod Aelodau a swyddogion yn deall Egwyddorion Nolan ac yn ymlynu wrthynt. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.**

[2] Yn 2015, fe wnaeth y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus nodi saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a adwaenir hefyd fel Egwyddorion Nolan) sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pawb a etholir neu a benodir i swydd gyhoeddus

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.